

Glaw dros Baghdad

27/03/2003

Gogwyddaf fy mhen, un glust lipa yn sythu a chwilio am y rhythm chwyrru cyfarwydd, cartrefol; ofer yw'r chwilfrydedd. Eistedda Hen Ddyn Rhychlyd yn y gadair freichiau arferol, a sawr tobacco yn dal i anweddu o'r clustogau bratiog. Cyfarthaf yn dawel a mynd a'm ffroen at ei law sy'n hongian fel y gwna'r talpiau cig o doeau stondinau'r farchnad. Does dim gwres yn dod o'i gledd a dyw ei fysedd ddim yn crafu blew fy mhen fel mae'n arfer gwneud. Beth ddigwyddodd i'm Hen Ddyn Rhychlyd? Mae'n arogl'r un fath. Mae'n edrych yr un fath. Llyfaf y llecyn o groen blewog sy'n pipian rhwng ei hosan a'i drowsus; mae'n blasu'r un fath, ond... mae'n oer. Pwy ddygodd ei wres? Eisteddaf ar y llaw pridd o'i flaen ac udaf, ond nid yw'n brysio i'm cysuro. Udaf eto, yn uwch y tro hwn. Codaf, cerdded o amgylch ei gadair freichiau tair gwaith, a rhwbio fy ffrwyn yn ei gledd eto. Dim ymateb. Nid fy Hen Ddyn Rhychlyd i yw hwn- mae rhywbeth o'i le. Dwi'n cyfarth mewn cymysgedd o ofn a thristwch, ac yn troi i drotian allan o'r drws.

01/04/2003

Mae 'nhrwyn yn dechrau dawnsio. Llenwa fy mhen â rhyw arogleuon hyfryd. Rhywbeth melys. Rhywbeth pysgodlyd. Rhywbeth sur. Dilynaf fy nhrwyn sy'n chwilota am ffynhonnell yr arogl. Cryna fy mol yn y gobaith o'i lenwi am y tro cyntaf ers deuddydd. Feiddiwn i ddim mynd at y bwrdd cig yn y farchnad rhag i'r wraig redeg ar fy ôl â brwsh eto. Clonc. Llamaf yn ôl gan ysgwyd fy mhen i gael gwared â'r pendro. Daw'r arogleuon cymysg o du mewn i fwced mawr metel. Ni oedaf eiliad wrth i'm mol gymryd yr awenau. Trawaf fy mhawennau blaen ar wefus y bwced. Dan fy mhwysau, mae'n disgyn gan ryddhau gwledd. Bagiau papur a phlastig wedi eu gorchuddio â briwsion bwyd. Crystyn â blas ceirch. Esgyrn gorfoleddus a'r braster yn dal i'w melysu. Ffrwythau crychlyd, amheuthun sy'n fy atgoffa o'r persawrau oedd yn dod o'r bwrdd na gawn neidio arno yng nghegin Hen Ddyn Rhychlyd. Daw gwaedd croch i'm deffro o'm llarpio llesmeiriol. Ciliaf o'r bwced gwyrthiol a rasio nerth fy nhair pawen iach yn ôl tua'r stryd gefn, yn saff o lygaid y llais blin.

Toc daw'r gwyll. Gyda'r tywyllwch, daw'r oerfel. Yn fy nghryndod, swatiaf tu ôl i ffrâm feic rydlyd, yr unig gysgod ar hyd y stryd noeth.

02/04/2003

Sŵn sodlau ar y llwch.

“Wel sbîa arnat ti. Ti'n crynu!” medd llais ifanc uwch fy mhen. Llais addfwyn rhag fy nychryn. Agoraf fy llygaid a rholio 'mhen i weld perchennog y llais. Person bach, arogl chwys a rhywbeth melys, grawnwin? Nage, ddim cweit.

“ 'Ti awydd bwyd? Dim ond fy mwyd ysgol sydd gen i. 'Ti'n licio bricyll?”

Aroglaf ei esgid wrth iddo blygu ataf ac estyn bag papur o'i boced.

“Dyma ti. Ci da.”

Tynna'r pethau bach crychlyd o'r bag. Codaf fy 'nghlustiau mewn cyffro, ond arhosaf lle ydw i ar y llawr.

“Ty'd, wna i ddim brathu.”

Estynna ei law yn agosach at fy nhrwyn. Dwi'n cropian yn araf o'r tu ôl i'r ffrâm feic. Llarpiaf. Ew, mae'n flasus. Dwi eisiau mwy ar unwaith. Llyfaf ei law i gael eu blasu eto, a chwardda.

“Paid, mae'n cosi!” Lleda gwên fawr dros ei wyneb. Bu'n amser hir ers i mi glywed y sŵn hapus hwnnw - chwerthin.

“Rhaid i mi fynd rŵan neu fydda i'n hwyr i'r ysgol.”

Coda ar ei draed. Dwi ddim eisiau iddo fynd. Griddfanaf. Chwardda.

“Paid â phoeni, ddoi nôl i dy weld wedi i'r ysgol orffen.”

Cerdda'n frysio allan o'r stryd gefn - i le mae'n brysio tybed? Dilynaf sodlau Person Bach at giât fach sy'n fy rhwystro rhag ei ddilyn ymhellach. Gorwedda'r ar y llawr llychlyd a chau fy amrannau.

Daw sain lleisiau bywiog i'm deffro a dwi'n clywed clicied y giât yn agor. Codaf ar fy nhraed gan ysgwyd fy nghynffon mewn cyffro. Cerdda coedwig o goesau heibio i mi, ambell un yn mwytho 'mhen am eiliad, ond nid rhain yw Person Bach fi. Yna, fe'i welaf.

“Wnes' ti aros amdana' i?! Wel ti'n gi da yn dwyt - yn dwyt!” Mae'r cyffro fel chwa o wynt sy'n cynhesu 'nghalon, “Tyrd, awn ni adre.”

Dilynaf ef ar hyd strydoedd cul, heibio ambell stondin fach, a heibio ci arall oedd ag arogl rhyfedd. Wrth basio coeden, crafaf fy nghlust yn y rhisgl garw a chwardda'r person eto. Dwi'n hoffi'r person hwn.

Cyn bo hir, mae'n fy arwain tuag at adeilad bach, unfath â phob adeilad arall yn y stryd.

“Aros di fama nes i fi nôl Iwma ac Aba.” Eisteddaf yn ufudd. Daw pobl mawr i'r golwg.

“Dim ffiars o beryg Carim, chei di ddim dod â'r anifail yna i'r tŷ.”

“Fel mae Iwma'n deud ngwas i, does dim lle i gi yn y tŷ yma. A sbia ar stad ei got o!” chwardda'n wag. Gwahanol yw'r lleisiau i anwylddeb Person Bach.

“Wel ga'i o leiaf ei gadw tu allan? Byddai'n help i ddychryn y llygod mawr ac yn ddiddanwch i Centola pan fydda i yn yr ysgol. Pliiiiiis?” erfynia Person Bach. Mae cydymdeimlad a thrueni yn croesi wynebau'r bobl mawr. Ochenaid.

“Iawn, am heno'n unig. Fory rhaid i ti a Centola edrych am gartref arall iddo.”

“Diiiiolech! Wnewch chi ddim difaru.” Nawr mae'n troi ata i, “Arhosa di fanna i fi nôl crystyn i ti.”

Gyda'r teulu nawr i gyd o amgylch y bwrdd isel yn bwyta, gorffwysaf fy mhen ar y stepen drws yn fodlon. Sibryda Centola yn dawel wrth sychu'r bwyd o ên y person lleiaf wrth y bwrdd, sy'n gwneud synau garglo doniol o bryd i'w gilydd. Daw murmur lleisiau o'r boc ar y silff i lenwi'r bwlch yn y sgwrs. Tro'r dyn ei ben wrth glywed rhywbeth sy'n ennyn ei ddiddordeb. Ymestynna Aba ei law a throi olwyn i godi'r sain.

“Cyhoeddodd y Cadfridog Tommy Franks ei fod yn hen bryd i geisio ymyrryd â llywodraeth Saddam Hussein a dinistrio'r arfau torf-ddinistriol y mae Iraq yn ei guddio.”

Ysgwyda Iwma ei phen ac ochneidia Aba.

“Mae gwledydd eraill wedi addo rhwystro Hussein sawl tro a neb yn gweithredu; mae eu heconomi nhw’n bwysicach iddyn nhw na’n bywydau Shia ni.”

“Hen addewidion a bygythiadau gwag.”

“Iwma, mae’r babi’n pesychu eto,” torra llais Centola ar draws y gwleidyddiaeth.

“Paid ti a phoeni rŵan” meddai Iwma wrth weld y smotiau gwaed o geg ei baban. Mae hi’n ei droi ar ei fola a rhwbio ei gefn. “Dyna ti, mae Iwma yma rŵan.”

Mae’r lleisiau’n addfwyn a thawel, ond dwi’n clywed y straen y tu ôl iddyn nhw. Llithra fy llygaid ynghau wrth i’r sgwrs barhau a dechreua fy meddwl grwydro.

03/04/2003, 03:00

Bwm. Saetha fy llygaid ar agor a chodaf ar fy nhraed. Bwm. Dwi’n teimlo’r dirgryniadau o’r ddaear dan fy mhawenau. Bwm. Clywaf seirenanu. Yn y pellter i gychwyn, ond yn agosáu. Bwm. Yna sgrech yr adar caled. Bwm. Cyfarthaf yn wyllt. Beth sy’n digwydd?! Bwm. Rheda Person Bach a’i deulu o’r tŷ. Bwm.

“Dewch ar frys.”

“Ond beth am y tŷ a phopeth ynddo?”

“Does dim amser i boeni am hynny nawr Centola.” BWM.

Cynydda’r panig. Datoda Centola fy nhennyn cyn dal fyny â’r lleill. Mae fflyd o bobl eraill yn y stryd, pawb yn brysio oddi wrth ganol y ddinas. Llefain. Ubain. Anhrefn. Ymuna Aba gyda chriw o ddynion sy’n rhedeg o dŷ i dŷ yn gwirio bod pawb allan ac yn dianc. Ar fy nghyfyl disgyna hen berson diarth.

“Ewch hebda i” meddai Aba.

“Ond...”

“Ewch. Ddoi ar eich olau yn y munud. Peidiwch aros.”

“Aba...”

“Ewch y tu allan i ffiniau’r ddinas heb stopio. Welai chi yno, iawn?”

“Caru ti.”

Dechreua’r teulu frysio eto, minnau ar goll rhwng eu coesau gwyllt. Arhosa Aba i helpu’i gymydog.

“Dewch” meddai Iwma. Sylwaf ar y dagrau ar ei gruddiau ond mae ei wyneb yn benderfynol. Mae’r dagrau allan o’u lle, fel gleiniau glaw ar lawr sych y diffeithwch. Wni ddim pam eu bod yno.

Gyda phob dirgryniad drwy’r ddaear, cyflyma’r dorf. Rheda’r teulu dan gysgod y waliau. Mae Carim yn wylo’n dawel, Centola’n crynu - nid o achos oerfel, a llefain mae’r babi yn uchel, dim ots faint mae Iwma yn ei wasgu at ei chorff.

Wedi oriau o ffoi, does gan neb yr anadl bellach i ubain. Amneidia Iwma, sy’n wyn fel y galchen, at graig arw. Rydyn ni’n bell o’r adeiladau rwan. Ymhell o gartref y teulu. Cyrff yn drwm o flinder, disgynna’r teulu wrth y graig a chofleidio. Does dim dagrau bellach i’w crio, dim lleisiau bellach i wylo. Dim ond wynebau gwyn a chyrrff crynedig.

“Ble mae Aba?” daw sibrydiad gwan.

“Wn i ddim cariad.” Er ei hymdrechion, metha Iwma roi mwgwd dros y gofid a’r anobaith yn ei llais.

Trof a gwelaf y ddinas wenfflam ar y gorwel. Cyrcha adar caled, enfawr uwch ben y ddinas, yn esgyn a phlymio am yn ail fel ysglyfaethwyr. Mae eu dawns yn frawychus o osgeiddig wrth i belydrau’r haul bipian dros y gorwel. Y pyst haul yn eu llyfu’n llesmeiriol wrth i’r bomiau lawio.

Edrychaf yn ôl tua’r teulu yna plethaf i’w plith i ganfod gwres. Gwasgaf rhwng Iwma a Person Bach. Codaf fy ffroenau tuag at y person lleiaf sydd yng nghôl Iwma. Mae ei ysgyfaint yn llonydd, a’i gorff yn oer. Y llaw fechan yn llipa fel llaw Hen Ddyn Rychlyd. Gostyngaf fy ngên ar ysgwydd Iwma a theimlo’r dafnau glaw hallt yn gwlychu ei gruddiau.